# Diweddariad Interim Prosiect Cydnerth

Pan gymeradwywyd Achos Busnes Llawn Cydnerth yn Chwefror 2025, roedd cais gan y Bwrdd Uchelgais i dderbyn adroddiad diweddariad ar y prosiect o fewn 6 mis. Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r cynnydd ers cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn.

**Cynnydd Prosiect**

- Mae'r gwaith adeiladu ar gyfer prosiect Cydnerth bellach yn mynd rhagddo gyda gwaith drilio ar y tir.
- Cafodd y cytundeb terfynol gyda Jones Bros ei arwyddo a'i gyhoeddi gan Menter Môn yn Awst 2025 yn Dilyn cwblhau'r cytundeb benthyciad.
- Mae mater wedi codi ynglŷn â chael cymeradwyaeth derfynol i ddrilio o dan yr A55, ac ansicrwydd o fewn adrannau'r Llywodraeth ynghylch pwy sy'n rhoi cymeradwyaeth derfynol. Mae Menter Môn yn blaenoriaethu datrys y sefyllfa hon ac yn cyfathrebu â'r holl asiantaethau perthnasol. Disgwylir i'r sefyllfa gael ei datrys yn fuan ac ni fydd achosi unrhyw oedi sylweddol i'r prosiect yn gyffredinol.

**Buddion**

- Tair swydd uniongyrchol gyda Menter Môn wedi ei creu hyd yma, gan gynnwys Peiriannydd Cynorthwyol Trydanol, Rheolwr Grantiau Ynni, Rheolwr Perthnasau Tenantiaid.
- 5 digwyddiad yn targedu cryfhau a datblygu'r gadwyn gyflenwi wedi cynnal, gan gynnwys sesiynau cyflwyno cyflenwyr 1:1 i Morlais (ar-lein ac mewn person)
- 5 menter wedi ei cefnogi, mae hyn yn gorgyrraedd y targed o 3. Roedd rhain yn cynnwys Ymgysylltu uniongyrchol gyda darparwyr ac digwyddiadau wedi ffocysu.

**Cyllid**

- Cwblhawyd y benthyciad cyntaf o £5.358m yn llwyddiannus ar 16 Gorffennaf 2025.
- Mae taliadau benthyciad pellach o £1.584m a £1.923m wedi'u trefnu ar gyfer Hydref 2025 a Ionawr 2026 yn y drefn honno, yn amodol ar gydymffurfio â'r holl dystiolaeth ac adroddiadau benthyciadau.